# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 26 Medi 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 158

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### Datganiad gan y Llywydd

Am 13.30, gwnaeth y Llywydd ddatganiad am y ddeiseb ynghylch y terfyn cyflymder 20mya a'r broses ar gyfer ystyried deisebau.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymrwymiadau sero net

(45 munud)

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cadernid y System Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

(45 munud)

**5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Siarter Iaith: Fframwaith Cenedlaethol**

(30 munud)

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Costau Byw**

(30 munud)

**7 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Cadw: ennyn diddordeb cymunedau mewn treftadaeth**

(30 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 27 Medi 2023

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 21/09/2023 i'w hateb ar 26/09/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ59953 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyflwr cysylltedd rheilffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ59948 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o lwyddiant datblygiad SA1 a'r gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

3 OQ59970 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru yn gwneud Aelodau o'r Senedd yn fwy atebol i'r cyhoedd?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ59968 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OQ59949 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Llywodraeth Cymru â Japan?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

6 OQ59957 **(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu cynlluniau peilot ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yng Nghymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ59988 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r ddeiseb ar derfynau cyflymder diofyn o 20mya a gyflwynwyd i'r Senedd?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

8 OQ59990 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ59987 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog nodi blaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y 12 mis nesaf?

**Joel James** *Canol De Cymru*

10 OQ59973 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y treial incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

11 OQ59969 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl o ganlyniad i ffordd Blaenau'r Cymoedd A465?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

12 OQ59962 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith ehangach ei deddfwriaeth ei hun ar fusnesau bach yng ngogledd Cymru?